Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Reoledig Pant Pastynog
# Prion
# Sir Ddinbych
# LL16 4SG

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Pant Pastynog yn gwasanaethu pentrefi Prion, Peniel, Saron, a Nantglyn ger tref Dinbych, a'r ardal wledig gyfagos. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae 58 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys saith o ddisgyblion oed meithrin. Bu cynnydd mawr yn y niferoedd disgyblion ers adeg yr arolygiad diwethaf yn nhymor yr hydref 2005.

Daw 79% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Mae 11% o'r disgyblion o gefndir ethnig 'gwyn arall', yn cynnwys dau ddisgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Nid oes unrhyw ddisgybl â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn ddi-dâl ar hyn o bryd. Mae 17.6% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda 4% ar ddatganiad. Mae'r ffigurau hyn yn agos i'r cyfartaleddau cenedlaethol

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Medi 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pant Pastynog yw £4,510. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £9,248 a'r lleiafswm yw £2,719. Mae Ysgol Pant Pastynog yn 20fed allan o'r 52 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Pant Pastynog yn dda gan fod:

- cymhelliant disgyblion yn uchel a'r cynnydd a wnânt yn y gwersi yn dda;
- safonau ymddygiad a phresenoldeb yn dda iawn;
- ystod ac ansawdd y profiadau dysgu yn dda, a'r modd y mae'r cysylltiadau helaeth â'r gymuned ac ymweliadau niferus yn cyfoethogi'r cwricwlwm;
- yr ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol i helpu disgyblion unigol a grwpiau sydd ag angen cymorth ychwanegol mewn agweddau ar y gwaith; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod :

- patrwm diweddar o welliant yng nghyflawniadau disgyblion yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2;
- arweinyddiaeth y pennaeth yn gosod cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel ar gyfer gwelliant pellach;
- yr ysgol yn mynd i'r afael ag agweddau lle mae angen gwelliant pellach drwy dargedu cymorth ychwanegol yn effeithiol; a bod
- y corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 sicrhau gwelliant pellach yn y niferoedd disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau bod disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd llawn yn eu dealltwriaeth a'u medrau yn y gweithgareddau chwarae ac yn eu medrau ysgrifennu;

A3 parhau â'r gwaith o gynllunio dilyniant yn y medrau, yn enwedig i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael tasgau sy'n eu hymestyn yn llawn; a

A4 lledaenu ar draws yr ysgol yr arfer dda yn ansawdd y marcio er mwyn sicrhau gwell cysondeb.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, mae disgyblion yn ymroi i'r tasgau ac yn gwneud cynnydd parhaus yn erbyn nodau'r gwersi. Ar brydiau, nid oes digon o gynnydd mewn gweithgareddau dysgu y tu allan yn y Cyfnod Sylfaen, ac nid yw disgyblion, bryd hynny, yn defnyddio eu medrau meddwl yn ddigonol. Mae disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cyfranogi'n llawn yn y gwersi ac yn gwneud cynnydd sylweddol o ran eu gafael ar y Gymraeg.

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer agweddau ar eu gwaith yn gwneud cynnydd arwyddocaol. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent mewn gwersi.

Mae disgyblion yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad mewn sefyllfa ddosbarth cyfan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ffordd y mae gallu disgyblion i gynnig ymatebion mwy estynedig yn ddigymell yn nodwedd gref. Maent yn cyfathrebu'n rhydd ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ansawdd mynegiant llafar yn Gymraeg yn gryfder, gyda disgyblion yn dangos gafael gynyddol ar ystod o eirfa a thermau arbenigol.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Maent yn medru darllen ar goedd lyfrau o her briodol yn Gymraeg a Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion sydd â'u hoed darllen yn uwch na'r disgwyliadau.

Mae disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac yn ymddiddori mewn llyfrau. Maent yn datblygu yn eu gallu i gynnig ymateb personol i agweddau amrywiol ar yr hyn a ddarllenant. Datblygant y gallu i lunio adolygiadau estynedig o lyfrau ac maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, daw rhan fwyaf y disgyblion i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain yn annibynnol i ystod o bwrpasau. Defnyddiant eirfa gynyddol, ond nid yw gwaith digon o'r disgyblion yn dangos cynnydd llawn, yn enwedig o ran hyd a'u gafael ar atalnodi sylfaenol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ailddrafftio. Mae'r gwaith yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu a'r gallu i baragraffu'n briodol. Gwna disgyblion gynnydd da yn atalnodi eu gwaith yn briodol ac mae cynnwys gwaith dychmygus yn ddiddorol. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol i mewn pynciau eraill, gan wneud defnydd cynyddol o dermau arbenigol. Mae safonau cywirdeb gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a ffigyrau Cymru. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% isaf dros gyfnod mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, ond wedi amrywio yn y pynciau yn unigol. Ac eithrio yn y Gymraeg yn 2011, nid oes unrhyw ddisgyblion wedi cyrraedd lefel 3 mewn unrhyw bwnc dros y blynyddoedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn is na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn wahanol i'r pynciau eraill, mae'r cyflawniadau ar lefel 4 yn y Gymraeg yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae cyflawniadau'r bechgyn mewn mathemateg wedi bod arwyddocaol is na'r merched dros gyfnod o gymharu â ffigurau'r teulu a Chymru.

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 yn gyffredinol wedi bod ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg yn genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf, er yn y 25% uchaf yn 2011 yn y pynciau yn unigol ac eithrio mewn mathemateg.

Mae cyflawniadau disgyblion 11 oed ar lefel 5 yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cymharu'n ffafriol â'r teulu yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ond nid felly dros gyfnod mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Mae un o bob dau yn ymuno â gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae lefelau cymhelliant bron bob un o'r disgyblion yn uchel ac maent yn ymroi yn frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu. Maent yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai ysgolion tebyg.

Mae'r llawer o'r disgyblion yn datblygu amrediad helaeth o fedrau personol a chymdeithasol drwy ymwneud ag ystod eang o fudiadau a sefydliadau lleol, yn cynnwys Eglwys Sant Dyfnog a chapeli lleol. Mae'r cyngor ysgol yn flaengar yn y modd y mae'n gweithredu fel fforwm i gynllunio a thrafod yn ddeheuig ystod eang o faterion a chyfrannu at benderfyniadau. Mae'r modd y mae disgyblion yr ysgol yn datblygu'n unigolion cyflawn a hyderus yn nodwedd gref.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu symbylus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i gyfrannu eu syniadau eu hunain adeg cynllunio themâu'r tymor. Mae darpariaeth briodol o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol wedi rhoi sylw priodol mewn cynlluniau gwaith i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Mewn rhai achosion, nid oes cynllunio digon manwl ar gyfer gweithgareddau chwarae yn y Cyfnod Sylfaen i sicrhau digon o gynnydd mewn medrau a dealltwriaeth.

Mae'r ddarpariaeth gyfoethog o brofiadau i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o agweddau ar ddiwylliant Cymru a'r dimensiwn Cymreig yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar ymweliadau cyson gan feirdd a llenorion ac mae'r disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth ar agweddau o lenyddiaeth a chelfyddyd drwy weithdai. Mae'r cyfleoedd nodedig i gymryd rhan a phrofi llwyddiant mewn cystadlaethau sirol a chenedlaethol megis y cwis llyfrau ac eisteddfodau yn gwneud llawer i gyfoethogi ac ymestyn profiadau'r disgyblion o'r diwylliant Cymreig.

Mae'r ysgol yn gwneud llawer i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o gynaladwyedd, Masnach Deg a dinasyddiaeth fyd-eang. Sefydlwyd cyswllt gyda chartref plant yn Nepal a chafodd disgyblion y cyfle i fynychu cyngerdd gan Gôr Watoto, Affrica a gweithdy ar Gerddoriaeth Affricanaidd. Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar gefndiroedd teuluoedd disgyblion sy'n hanu o wledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith dda rhwng y staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn creu ethos weithgar a chynhaliol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r cymorthyddion i roi cymorth ychwanegol i grwpiau ac unigolion penodol.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau'r gwersi'n briodol gyda'r disgyblion ac yn trefnu dilyniant o weithgareddau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn barhaus. Maent yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion ar ddechrau'r gwersi ac mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u targedau personol. Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn annog y disgyblion i feddwl yn ddigonol a datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau. Ar adegau mewn gwersi, nid yw'r gwaith yn herio'n ddigonol y disgyblion o allu uwch.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau, gyda chyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o ddata i dracio cynnydd disgyblion a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae llawer o'r marcio yn drylwyr ac yn rhoi adborth manwl i'r disgyblion ar ansawdd eu gwaith, ond mae peth anghysondeb o ran dangos i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i wella a'r camau nesaf.

Mae trefniadau priodol yn eu lle i safoni a chymedroli asesiadau athro. Drwy'r adroddiadau a chyfarfodydd tymhorol, mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r

sesiwn ddyddiol ysgol gyfan o bum munud i hybu ffitrwydd y disgyblion yn flaengaredd fuddiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda iawn, ac mae ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol ac mae’n gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae cymorth ychwanegol effeithiol i ddisgyblion y mae angen gwella eu medrau llythrennedd sylfaenol**.**

Mae’r ysgol yn darparu nifer da o weithgareddau sy’n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion feithrin talentau arbennig, yn enwedig mewn meysydd cerddorol a diwylliannol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol ac mae’r ethos gweithgar a chynhaliol yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharch. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol yn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae’r adeilad yn darparu digon o le a chyfleusterau pwrpasol ac mae’r ysgol yn gwneud defnydd llawn ohonynt. Mae’r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn creu amgylchedd diddorol sy’n dathlu gwaith a llwyddiannau’r disgyblion. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae addasiadau priodol wedi eu gwneud ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae cyfrifoldebau staff wedi eu diffinio’n glir ac mae staff yn cydweithio’n effeithiol i weithredu’r blaenoriaethau gwelliant. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o ddata perfformiad i nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Y mae hyn wedi arwain at ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac at welliannau mewn agweddau ar gyflawniad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae’r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae’n gyfarwydd â dadansoddiadau o ddata perfformiad ac yn cyfrannu at osod cyfeiriad strategol yr ysgol drwy drafod blaenoriaethau’r adroddiad hunan-arfarnu a’r cynllun datblygu ysgol. Mae adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun datblygu ysgol, ynghyd ag ymweliadau cyson â’r ysgol, yn galluogi’r llywodraethwyr i weithredu’n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw helaeth i flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Y mae hyn yn enwedig ym meysydd asesu ar gyfer dysgu, codi safonau llythrennedd a rhifedd a chydweithio gydag ysgolion eraill fel cymunedau dysgu proffesiynol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunan arfarnu, yn cynnwys trefn briodol o ymweliadau monitro'r dysgu a'r addysgu yn y dosbarthiadau. Mae cydlynwyr pynciol yn paratoi adroddiadau defnyddiol yn seiliedig ar archwilio samplau o waith disgyblion. Mae'r adroddiadau yn crynhoi cryfderau a meysydd datblygu yn y pynciau unigol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae gan yr ysgol hefyd drefniadau priodol ar gyfer canfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron ac mae'r wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu'n briodol at y broses o wella ansawdd.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a chryno sydd yn nodi'n gywir yr agweddau lle mae angen gwelliant.

Mae cyswllt agos rhwng hunan arfarnu a blaenoriaethau cynlluniau datblygu. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gryno a threiddgar sy'n cynnwys blaenoriaethau clir gyda ffocws priodol ar godi safonau. Mae strategaethau addas ar gyfer cyflawni'r bwriadau a defnydd da o feini prawf penodol i fesur llwyddiant, ynghyd â therfynau amser penodol. Mae'r cynllun datblygu cyfredol hefyd yn nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer y tymor hir.

Mae ansawdd ymglymiad yr ysgol o fewn ei chymuned dysgu broffesiynol ac ysgolion eraill y clwstwr yn nodwedd amlwg, gyda thystiolaeth glir bod hyn yn arwain at godi safonau. Mae'r ysgol a staff unigol yn cyfrannu'n effeithiol at nifer o brosiectau a gweithgorau ac wedi rhannu arfer dda drwy fod yn rhan o'r prosiect cenedlaethol *Iaith ar Gân*.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae partneriaeth gref gyda'r rhieni. Cynhaliwyd nosweithiau â'r rhieni i rannu gwybodaeth am agweddau yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen, ac i roi arweiniad i rieni ar ddarllen a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau.

Mae'r cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i siarad â'r disgyblion i ehangu dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae'r gymuned yn cael gwybodaeth gyson gan yr ysgol drwy gylchlythyr sy'n cael ei ddosbarthu i holl gartrefi'r ardal. Mae hon yn arfer flaengar.

Mae cysylltiad cryf gydag ysgolion eraill yn y clwstwr lleol, yn cynnwys cydweithio mewn gweithdai llenyddol a chreadigol, a rhannu syniadau ar sut i redeg y cyngor ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd yn cynorthwyo'r broses gymedroli a chyd safoni asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2. Mae ymweliadau rhwng y 'triawd' o ysgolion lleol wedi bod yn fodd o gyfnewid arferion da ac wedi cyfrannu at godi safonau ysgrifennu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o arbenigeddau staff drwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer addysgu rhai pynciau. Mae trefniadau addas yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad y staff, yn cynnwys staff nad ydynt yn addysgu.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu bwriadau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Atodiad data perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Mae hyn hefyd yn wir am y pynciau hyn yn unigol, yn ogystal â llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Roedd y ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Cymraeg yn 2011 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Ac eithrio hynny, nid oes unrhyw ddisgybl wedi cyflawni lefel 3 mewn unrhyw bwnc dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gyffredinol wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm mewn mathemateg ac mewn gwyddoniaeth, er i bob disgybl gyflawni ar lefel 4 mewn gwyddoniaeth yn 2011.

Mewn Cymraeg, mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn gyffredinol wedi bod yn sylweddol uwch na ffigwr y teulu o ysgolion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn is na ffigyrau'r teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Yn Saesneg, bu canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn is na'r teulu a Chymru mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn ysgrifennu. Yn 2011, cyflawnodd pob disgybl ar lefel 4 yn Saesneg.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg , Saesneg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae cyflawniadau ar lefel 5 yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cymharu'n ffafriol â'r teulu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched. Mae'r ganran o fechgyn yng nghyfnod allweddol 2, sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn mathemateg wedi bod yn arwyddocaol is na'r merched o gymharu ag ysgolion eraill y teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron dysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (31 disgybl)

Mae’r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn gyffredinol yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae nifer bach o ddisgyblion yn nodi nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith ac nad yw ymddygiad rhai disgyblion yn dda.

### Holiaduron rhieni/gofalwyr

Derbyniwyd 25 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd. Mae’r rhieni i gyd yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol ar gael yn ôl yr angen. Nododd bron y cyfan o’r rhieni eu bod yn fodlon iawn â’r ysgol yn gyffredinol a’u bod yn cytuno’n gryf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eluned Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Williams | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |